



Y bleidlais ar Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022

24 Awst 2023

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 22 Awst 2023, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

[The Restricted Roads \(20 mph Speed Limit\) \(Wales\) Order 2022](#)

Please can you send me a list of Senedd members who:

- 1. Voted in favour of this bill.*
- 2. Voted against this bill.*
- 3. Abstained from voting.*

Gweler ein hymateb isod.

Mae cofnodion y Cyfarfod Llawn ar gael ar wefan y Senedd, ac mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani ar gael yma – [Canlyniadau Pleidleisiau y Cyfarfod Llawn 12/07/2022 – Senedd Cymru \(senedd.cymru\)](#)

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

Buddug Saer
Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

[A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?](#)

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF